# y BWMPEN

## BERFFAITH AMHERFFAITH



Ysgrifennwyd a darluniwyd gan Rachel Cook

*Y Bwmpen Berffaith Amherffaith* **Hawlfraint © 2022** gan Rachel Cook,
**Hawlfraint dyluniad y clawr © 2022** gan Rachel Cook.
**Hawlfraint y testun Cymraeg © 2022** gan Rachel Cook/ Cyngor Sir Caerfyrddin

**Cedwir pob hawl.**
Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i ddosbarthu, ei newid na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, gan gynnwys sganio, lanlwytho, llungopïo, na'i ddefnyddio ar y rhyngrwyd heb ganiatâd ysgrifenedig gan yr awdur ymlaen llaw, ac eithrio wrth gynnwys dyfyniadau byr mewn erthyglau ac adolygiadau. Diolch ichi am gefnogi hawliau'r awdur.
Cyhoeddwyd yn 2022
Argraffwyd yng Nghymru.

I bob plentyn sy'n darllen y llyfr hwn...
boed iti fod yn ddewr fod yn ti dy hun.

Wyt ti erioed wedi teimlo'n wahanol, neu'n chwith mewn cwmni ar adegau?
Wyt ti erioed wedi eisiau edrych yn wahanol, neu fod yn dda am wneud amryw o bethau?
Wyt ti erioed wedi dymuno bod fel rhywun arall, yn lle bod yn ti dy hun?
Rydw i yma i adrodd hanes y bwmpen oedd hefyd yn teimlo'n ddi-lun.
Dysgodd mai bod yn ti dy hun yw'r peth gorau yn wir. Dyma'i stori,
A'r bwmpen rydw i'n sôn amdani, wrth gwrs...... yw y fi!



Yn union fel pob pwmpen arall, dechreuais fel hedyn bach,
Wedi fy hau ar ddechrau'r haf er mwyn tyfu'n fawr ac yn iach,
A'r ffermwraig yn fy rhoi mewn gwely clyd o dan haen o bridd,
Ac ar ôl cael ychydig o ddwr, cysgais yn y tywyllwch cudd.



Cynhesodd yr haul y pridd lle roedd yr hadau yn eu rhesi,
Ac yn union fel pob hedyn arall, dechreuais


dyfu


a

thyfu

a

thyfu.








Yng nghanol y tyfiant troellog,
roedd haid o wenyn yn suo,
Ymysg y dail gwyrdd a'r blodau mawr oren
a oedd yn prysur flodeuo.

Cyn bo hir, yn lle'r blodau tyfodd ffrwythau bach bendigedig,
A daeth y ffermwraig i'n cadw'n gynnes mewn gwely o wellt arbennig.
Roedd popeth yn rhyfeddol ond ychydig a wyddwn i,
Nad oeddwn yr un fath â'm ffrindiau am fy mod yn araf yn tyfu.







Trodd y dail yn goch ac yn aur wrth i'r haf ddod i ben.
Roedd hi'n nosi'n gynt ac roedd arwydd o'r hydref ym mhob deilen.
Aeddfedodd y pwmpenni a throi'n grwn yn haul braf mis Medi,
Sef hoff amser y flwyddyn i bob pwmpen; yr hydref amdani!

Yn fuan byddai'n fis Hydref ac a wyddech chi?
Hydref, heb os, yw hoff fis yr holl bwmpenni.
Ar Galan Gaeaf, cânt ddilyn eu holl freuddwydion,
A chael eu dewis gan rywun yn berffaith fodlon.





Mae eraill yn cael eu troi'n bastai bwmpen flasus,
A rhai'n cael eu cerfio i fod yn wynebau arswydus.

Yn wir, gall pwmpenni wneud llawer iawn o bethau.
Mae rhai mor fawr maent yn llwyddo i ennill gwobrau.



Caiff rhai eu defnyddio i addurno ffenestri a drysau,
Tra bo eraill yn troi'n gychod i hwylio ar hyd y glannau.





Mae rhai'n cael eu haddurno â llygaid a dannedd miniog,
Ac eraill yn cael eu rhoi yn rhan o addurn blodeuog.

Pan ddaeth hi'n fis Hydref, roedd y pwmpenni wedi tyfu,
Ac wedi aeddfedu, yn barod i fynd i'r cartrefi.
Wrth dyfu, trodd yr holl bwmpenni'n lliw oren hardd,
Ond doeddwn i ddim yn oren, roeddwn i'n las ac yn wyrdd!!!

Roedd gen i groen ofnadwy o arw yn llawn lympiau,
Ond roedd croen y lleill yn hollol lyfn heb unrhyw fân wendidau.
Roedd fy nghoesyn fel chwyrligwgan yn troi ar fy mhen,
Yn hytrach na sefyll yn syth fel coesyn pob un bwmpen.



O'r diwedd, roedd y cae pwmpenni ar agor, ac yno daeth pawb yn llu,
Pob dydd yr un fath — yn blant a'u rhieni, ac ambell dad-cu a mam-gu.
Pob un yn dewis y bwmpen berffaith i fynd adref â hi,
Ond chefais i erioed fy newis, naddo wir i chi, nid fi.



Gallwn eu clywed yn chwerthin, ac weithiau roeddent yn gas.
Doeddent ddim wedi gweld pwmpen mor lympiog ac un a oedd mor las.
Roeddwn yn edrych yn wahanol ac roedd arna i gywilydd.
Roeddwn yn teimlo'n ofnadwy o unig, heb air o gelwydd.





Pan oedd yr holl bwmpenni'n cysgu,
un noson dywyll, oer,
Gwelais wrach yn hedfan i fyny fry
Yng ngolau'r lloer.

Mae'n siŵr na welodd hi un fel fi o'r blaen, meddyliais yn ddiflas,
Sef pwmpen fach wahanol oedd mor hyll, a lympiog, a gwyrdd a glas.
Yna fe oleuodd golau'r lleuad ei hwyneb a gallwn weld ei gwên,
A sylwais fod ganddi hithau lympiau'n glwstwr ar ei gên!!!





Cododd hi fi i fyny fry a dawnsio o amgylch gan sgrechian.

"Hwrêêêêêêêê!" meddai hi. Yn wir, roedd hi fel petawn i'n gallu hedfan!

"Ti yw'r bwmpen fwyaf anhygoel a welais i erioed," dywedodd.

"Rwyt ti'r maint, y lliw a'r siâp perffaith ac rydw i wir wrth fy modd!"



Roeddwn wedi cael fy newis o'r diwedd. Pwy feddyliai'r peth?
Edrychodd y pwmpenni eraill ar ei gilydd mewn penbleth.
Ffarweliais â nhw wrth inni hedfan i ffwrdd ar y brwsh,
A gwaeddon nhw "Hwrê!" wrth inni wibio heibio'r lleuad, wwsh!



"Roeddwn yn arfer bod yn union fel ti," meddai'r wrach,
"Yn wahanol i'r lleill, ac yn teimlo mewn tipyn o strach.
Yna, un diwrnod, wrth edrych arnaf fi fy hun yn y drych,
Sylweddolais fy mod yn unigryw, yn arbennig, yn wych!!!

"Flwyddyn ar ôl blwyddyn, hedfanais i gaeau di-ri,
Yn chwilio ym mhobman am bwmpen yn union fel y ti.
Mae dy goesyn yn fendigedig o gyrliog,
Ac mae dy groen di yn arbennig o lympiog!
Ond paid â meddwl mai'r unig beth gwych amdanat yw dy bryd a gwedd,
Mae popeth amdanat yn gwneud y byd yn lle gwell mewn gwirionedd."





Cyrhaeddodd Calan Gaeaf, yn bendant fy hoff ddiwrnod,
A daeth pawb draw fan hyn i'm gweld a dod i'm hadnabod,
Gan ddweud pethau mor garedig a bod yn ddymunol.
"Hon yw'r bwmpen ORAU a welais erioed - mae'n
RHYFEDDOL!"



Gwenodd y wrach yn falch, "On'd yw hi'n bwmpen dda?
Roeddwn i mor falch o ddod o hyd iddi ar ôl hir helfa."
Wrth i'r noson ddod i ben, aethon ni oll i glwydo,
A meddyliais am bob peth y dylwn fod yn falch amdano.
Yna clywais lais bach yn dweud wrth i'm llygaid gau,
"Rydw i'n dwlu arnat ti... yn lympiog ac yn frith dy liwiau!"



Er fy mod yn teimlo'n wahanol, mae'r wrach wedi dangos i mi,
Mai peth da yw bod yn wahanol achos y fi yw y FI.
Byddai'r byd mor ddiflas petawn ni i gyd yn debyg,
Felly cofia hoffi dy hun, gan gynnwys pob diffyg.
Cer amdani, bydd yn ti dy hun a gwna addewid,
"Rwy'n unigryw a dydw i DDIM am newid!"





Mae Hydref 2022 yn fis Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu. I ddathlu, mae Rachel wedi gweithio gyda Thîm Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru i greu pecyn gweithgaredd argraffadwy am ddim a chynlluniau gwersi sy'n cynnwys gweithgareddau hwyliog i ddilyn ymlaen o'r stori hon. Mae rhywbeth at ddant pawb felly ewch draw i

https://mabwysiaducgcymru.org.uk

i lawrlwytho eich gweithgareddau am ddim.



Weithiau mae'n anodd teimlo eich bod yn rhan o'r cwmni, ac mae'r stori hydrefol hyfryd hon yn adrodd hanes pwmpen sy'n edrych ac yn teimlo'n wahanol, ac sy'n ofni na fydd byth yn cael ei dewis. Mae gwrach garedig yn ei helpu i weld pa mor hudolus yw hi mewn gwirionedd, gan newid y ffordd y mae'n ystyried ei hun am byth. Mae'r stori dyner hon mewn mydr ac odl yn ein hannog i dderbyn ein hunain ac i ddathlu ein gwahaniaethau.

Gan awdur y stori, 'Dewi'r Diogyn yn mynd yn ôl i'r ysgol'.